

Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	24 Gorffennaf 2024
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cyng Gill German, Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd / Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg
Pennaeth Gwasanaeth	Rhian Morrille, Pennaeth Gwasanaethau Plant
Awdur yr adroddiad	Anest Gray Frazer, Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych
Teitl	Arolygiad ar y Cyd HMIP o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn i roi adborth ar Adroddiad Arolygiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Atodiad A) yn dilyn Cyd-arolygiad HMIP o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych (GCI).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am y Cyd-arolygiad diweddar o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (GCI) Conwy a Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau fel y bo'n briodol.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Daeth amseriad yr arolygiad hwn ar yr adeg anoddaf i GCI Conwy a Sir Ddinbych, adeg pan fu newidiadau a heriau sylweddol. Er gwaethaf hyn, canfu'r Arolygwyr dîm arwain y GCI cryf a gwybodus a oedd wedi bod yn allweddol wrth weithio gyda staff i ddarparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc. Adroddodd yr Arolygwyr fod y tîm wedi cyflawni hyn er gwaethaf prinder staff sylweddol a heriau strategol sylweddol, tra hefyd yn gweithredu polisiau a ffyrdd newydd o weithio. Canfu'r Arolygwyr hefyd rai enghreifftiau cadarnhaol o waith sy'n cael ei gyflwyno gyda phlant a rhannwyd bod hyn yn dyst i ymrwymiad a gwydnwch y tîm arwain a'r grŵp staff.
- 4.2. Dywedodd yr Arolygiaeth fod GCI Conwy a Sir Ddinbych angen Gwelliant. Pennir y raddfa gyffredinol gan y graddfeydd agregedig dros dri maes: Cyflawni Sefydliadol, Gwarediadau Llys a gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.
- 4.3. Canfu'r Arolygiad bod angen datblygu arweinyddiaeth strategol a llywodraethu'r gwasanaeth yn sylweddol. Er bod yr Arolygwyr yn cydnabod y bu ymdrechion i adnewyddu ac ailffocysu'r Bwrdd Rheoli, teimlent nad oedd y Bwrdd yn gweithredu ar lefel effeithiol eto a bod diffyg cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth.
- 4.4. Roedd yr arolygwyr o'r farn bod aelodau hanfodol o'r Bwrdd yn absennol a bod angen i'r rhai a oedd yn bresennol gael dealltwriaeth ddyfnach o waith cyfiawnder ieuencid a rôl a swyddogaeth unigryw'r GCI.
- 4.5. Nododd yr Arolygiad fod angen i Fwrdd Rheoli'r GCI gynnal dadansoddiad manwl o anghenion y plant sy'n defnyddio gwasanaethau'r GCI, fel blaenoriaeth, er mwyn deall yn llawn pa wasanaethau sydd eu hangen a'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plant y GCI. Roeddent hefyd o'r farn bod angen i'r Bwrdd ddeall yn well beth sy'n cyfrannu at y cyfraddau mynediad tro cyntaf ac aildroseddu uchel er mwyn galluogi'r Bwrdd Rheoli a'r bartneriaeth ehangach i gefnogi'r GCI i atal plant rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid neu rhag gwaethygu drwyddi.
- 4.6. Nodwyd hefyd bod angen i aelodau'r Bwrdd ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn llawn, ac ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau presennol, i sicrhau eu harweinyddiaeth strategol effeithiol o'r GCI.
- 4.7. Daeth yr Arolygwyr i'r casgliad bod gwaith partneriaeth yn gymysg. Dywedasant eu bod wedi gweld rhai enghreifftiau da o waith gweithredol effeithiol, ond, ar y cyfan, nid oedd y bartneriaeth yn darparu'r gwasanaethau cywir, ar yr adegau cywir, mewn ffordd hygyrch i blant.

- 4.8. Fel casgliad o arolygiaethau, roeddent yn bryderus iawn am y diffyg adnoddau a ffocws partneriaeth a ddarparwyd i'r GCI i gefnogi ei waith, yn enwedig methiant hir sefydlog y bwrdd iechyd i ddarparu unrhyw rai o'r gwasanaethau iechyd angenrheidiol i'r grŵp o blant sy'n arbennig o agored i niwed bod y GCI yn gwasanaethu.
- 4.9. Teimlai'r Arolygwyr nad oedd gan Aelodau'r Bwrdd Rheoli a phartneriaid Statudol amgyffred a oedd plant yn / yn cyrchu eu gwasanaethau na pha mor effeithiol yw'r gwasanaethau.
- 4.10. Dywedodd yr Arolygwyr eu bod yn gobeithio y byddai'r adroddiad, yr adborth a'r argymhellion yn cefnogi cynlluniau gweithredu presennol i ddwyn y bartneriaeth i gyfrif ac ail-ysgogi ymdrechion i gryfhau'r Bwrdd ymhellach – gyda golwg ar sicrhau bod y Bwrdd mewn sefyllfa i symud ymlaen yn gadarnhaol. , darparu adnoddau partneriaeth effeithiol, a hwyluso arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.
- 4.11. Mae Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych yn derbyn y canfyddiadau. Mae cynnydd ar argymhellion HMIP wedi dechrau ac maent wedi cael eu hymgorffori mewn cynllun gwella Bwrdd Rheoli / Cyfiawnder Ieuencid diwygiedig, gydag arweinwyr wedi'u nodi ar gefnogi pob cam gweithredu (Atodiad B). Bydd y cynllun yn parhau i gael ei fonitro gan Brif Swyddogion, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Chyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rheoli.
- 4.12. Mae Martin Jones, CBE, Prif Arolygydd Prawf HMIP wedi cymryd y cam anarferol o gyfarfod â Phrif Weithredwyr Conwy a Sir Ddinbych yn dilyn yr Arolygiad ac mae ymrwymiad cadarn gan y ddwy sir i symud y cynllun gwella yn ei flaen. Mae yna hefyd ymrwymiad cadarn i wella gweithio mewn partneriaeth i alluogi a sicrhau bod gwasanaeth rhagorol yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc Conwy a Sir Ddinbych.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Sir Ddinbych iachach a hapusach, gofalgarg.
- 5.2. Sir Ddinbych sy'n dysgu ac yn tyfu.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae fframwaith cyllid craidd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid wedi'i ragnodi o dan ddyletswyddau deddfwriaethol a amlinellir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

6.2. Mae Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych yn cytuno ar gyllideb y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Partneriaid statudol i sicrhau cynaliadwyedd wrth symud rhaglenni gwaith yn eu blaenau ac i'w dwyn ymlaen hyd nes y caiff ei haddasu i sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd cyllid dros fwy nag un flwyddyn ariannol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Yn gyffredinol, bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer penderfyniadau neu gynigion ar gyfer newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg. Gan mai adroddiad ar ganlyniad arolygiad yw hwn, nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar lesiant

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Roedd trafodaeth gyda'r Aelod Arweiniol yn rhan hollbwysig o'r broses arolygu.

8.2. Ymgysylltwyd â Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ddim yn berthnasol

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae adroddiad yr arolygiad yn amlygu'r holl feysydd a nodwyd y mae angen eu gwella.

10.2. Mae risgiau posibl i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth gan Wasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych os bydd Asiantaethau Partner a'r Bwrdd Rheoli yn methu ag ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad HMIP.